COFNOD O GYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB /YN RHITHIOL DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 13 MAWRTH 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd W J Kendall – Maer a Chadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| J P D Blundell | E L P Caparros | N Clarke | R J Collins |
| H J David | C Davies | P Davies | S Easterbrook |
| M J Evans | N Farr | P Ford | J Gebbie |
| W R Goode | M Jones | M Lewis | R L Penhale-Thomas |
| J E Pratt | R J Smith | J C Spanswick | T Thomas |
| J H Tildesley MBE | G Walter | A Wathan | A Williams |
| A J Williams | H M Williams | I Williams | M J Williams |
| R Williams | E D Winstanley | T Wood | J Llewellyn Hopkins |
| S Aspey | M J Kearn | I M Spiller | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C L C Davies, G Haines a D Harrison

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr - Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

Datganiadau o Fuddiant

## 2. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:<br><br>Y Cynghorydd J P Blundell buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda. Gadawodd y Cynghorydd Blundell y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.<br><br>Y Cynghorydd I Williams buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda. Gadawodd y Cynghorydd Williams y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.<br><br>Datganodd y Prif Weithredwr, yr holl Gyfarwyddwyr a'r Prif Swyddogion fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 ar yr Agenda a gadawsant y cyfarfod tra oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.<br><br>Datganodd y Cynghorydd M Evans fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Pencoed.<br><br>Datganodd y Cynghorydd T Thomas ddiddordeb personol yn eitem 8 ar yr Agenda, gan ei fod, trwy ei gyflogaeth wedi bod yn ymgysylltu gyda'r Adran ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yn Lloegr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

## 3. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 17 Ionawr 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

## 4. I dderbyn cyhoeddiadau gan:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y pwysigion canlynol (ni wnaed unrhyw benderfyniadau):-<br><br>• Y Maer<br><br>Fel rhan o gyhoeddiadau'r Maer gofynnodd i bob Aelod sefyll gan dalu teyrnged dawel fel arwydd o barch tuag at y cyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol Clive James, a fu farw yn ddiweddar yn drist iawn. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion ar gyfer munud o dawelwch.<br><br>Dywedodd y Maer hefyd y byddai'r Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 oedd i'w gynnal ar 18 Mawrth nawr yn cael ei aildrefnu ar gyfer 11 Ebrill 2024.<br><br>• Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd<br>• Aelod Cabinet – Addysg<br>• Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd<br>• Aelod Cabinet – Diogelu'r Gymuned a Lles<br>• Aelod Cabinet – Cyllid, Adnoddau a'r Gyfraith<br>• Aelod Cabinet – Tai, Cynllunio ac Adfywio<br>• Prif Weithredwr<br><br>Talwyd teyrnged gan y Dirprwy Arweinydd (a Chabinet) ac Arweinwyr Grŵp i'r Arweinydd yn dilyn y cyhoeddiad cyhoeddus o'i fwriad i sefyll i lawr fel Arweinydd y Cyngor o fis Mai 2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**5. I dderbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniodd y Cyngor gyhoeddiadau'r Arweinydd (ni wnaed penderfyniad).<br><br>Fel rhan o gyhoeddiad yr Arweinydd, cadarnhaodd y byddai'n sefyll i lawr fel Arweinydd o ddyddiad Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ymlaen. Pwysleisiodd cymaint o anrhydedd fu hi i fod yn Arweinydd y Cyngor oddi ar fis Hydref 2016 a diolchodd yr holl Aelodau a'r Swyddogion yr oedd wedi gweithio ochr yn ochr â hwy yn ystod y cyfnod hwnnw am eu cefnogaeth werthfawr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

## 6. Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV)

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, gyda'r bwriad o ganiatáu i'r Cyngor ystyried p'un ai a oedd yn dymuno ystyried newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau lleol i'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV).<br><br>Cafwyd crynodeb gweithredol o'r adroddiad gan fanylu ar yr wybodaeth ganlynol:<br><br>• Mae gan y Cyngor yn awr y dewis o newid y system bleidleisio o system 'Cyntaf i'r Felin' (FPtP) i 'Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy' (STV).<br>• Mae FPtP yn ddealladwy gan bawb ond dylai STV, er ei bod yn broses fwy cymhleth, ddarparu mwy o bwysoli priodol i bleidlais unigolyn.<br>• Bydd newid y system bleidleisio i STV yn gofyn am adolygu ffiniau yr holl wardiau presennol y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau bod lleiafswm o 3 Chynghorydd i bob ward a dim mwy na 6 Chynghorydd i bob ward.<br>• Gyda STV, mae pleidleiswyr yn trefnu ymgeiswyr yn ôl trefn eu dewis, gan nodi '1' wrth ymyl eu dewis cyntaf, '2' yn erbyn eu hail ddewis, ac yn y blaen, am gymaint o ymgeiswyr ag sydd ar y papur pleidleisio os ydynt yn dymuno.<br>• Gyda STV, mae cyfrif yn digwydd mewn gwahanol gamau gyda phleidleisiau sydd dros ben gan ymgeiswyr sy'n cael eu hethol a phleidleisiau o ymgeiswyr sydd wedi eu taro allan yn cael eu trosglwyddo i'r ymgeisydd nesaf o ddewis hyd nes i'r holl seddi gael eu llenwi.<br>• Caiff pleidleisiau dros ben eu trosglwyddo ar werth llawer is, a chaiff pleidleisiau ymgeiswyr sydd wedi eu diddymu eu trosglwyddo ar yr un gwerth ac y cawsant eu derbyn.<br>• Mae'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig yn golygu y gall y cyfri gymryd o leiaf 2 neu 3 diwrnod i'w gwblhau.<br>• Mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu os yw'n dymuno mynd i ymgynghoriad cyn iddo allu rhoi cynnig gerbron y Cyngor erbyn 15 Tachwedd 2024 er mwyn newid i'r system y bydd angen, wedyn, ei defnyddio yn etholiadau lleol yn 2027 a 2032 o leiaf.<br>• Mae'n rhaid i'r ymgynghoriad fod gyda phob etholwr llywodraeth leol, Cynghorau Tref a Chymuned a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol ynghylch yr adroddiad:<br><br>• Pe bai yna, er enghraifft yn y dyfodol, 6 aelod ar gyfer bob Ward mae'n bosib y byddai perygl o |

| | |
|---|---|
| | broffesiynoleiddio pleidlais Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a allai fod yn anhydrin a/neu arwain at beth datgysylltiad rhwng Cynghorwyr a'r cymunedau llai y maent yn eu cynrychioli.<br>• Roedd rhai aelodau yn gefnogol i STV, ond nid yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Awgrymwyd y dylai fod yn cael ei gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru;<br>• Teimlai un Aelod y gallai gwneud y newid hwn yn arwain at ddryswch ymysg pleidleiswyr a hynny mor fuan wedi rhoi'r Adolygiad Ffiniau ar waith.<br>• Datganodd un Aelod ei fod ef o blaid cynrychiolaeth gyfrannol gan y byddai hyn, fwy na thebyg, yn rhoi gwell adlewyrchiad o sut roedd etholwyr yn pleidleisio'n gyffredinol ac yn annog aelodau mewn ardal benodol i weithio'n rhagweithiol gyda'i gilydd, waeth beth fo'u hymlyniad gwleidyddol.<br>• Gofynnodd un Aelod pam mae STV wedi cael ei ddethol a pha amrywiad ar hyn fyddai'n cael ei fabwysiadu. Gofynnod a fyddai'r bleidlais cynrychiolaeth gyfrannol yn cael ei hystyried (fel dull amgen).<br><br>Wedi i'r Aelod ystyried yr adroddiad,<br><br><u>ERFYNWYD</u>: Y byddai'r Cyngor yn penderfynu y tro hwn, i beidio ag ymgynghori gyda phersonau oedd yn gymwys i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol, Cynghorau Sirol a Chymuned ac unrhyw bersonau y byddai'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, ar fater mabwysiadu'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn etholiadau lleol 2027 a'r etholiadau lleol fyddai'n dilyn wedi hynny yn 2032. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**7. Datganiad Polisi Tâl - 2024/2025**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd yr Aelod Cabinet - Cyllid, Adnoddau a'r Gyfraith adroddiad, gyda'r bwriad o geisio sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2024/2025. Roedd hyn mewn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac er mwyn darparu diffuantrwydd ac atebolrwydd mewn perthynas â sut roedd y Cyngor yn gwobrwyo ei staff.<br><br>Cafodd Datganiad Polisi Tâl diweddaredig ar oedd i'w gymeradwyo ei atodi fel Atodiad 1 i'r adroddiad.<br><br>Cafodd hwn ei gynhyrchu yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n gofyn am i bob awdurdod lleol |

| | |
|---|---|
| | ddatblygu a gwneud eu polisi ar bob agwedd o gydnabyddiaeth tâl y Prif Swyddog yn gyhoeddus.<br><br>Er mwyn sicrhau tryloywder pellach, mae'r cyfeiriad at dâl grwpiau perthnasol eraill wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Polisi Tâl.<br><br>Ers iddo gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill 2012, mae'r Polisi Tâl wedi ei ddatblygu er mwyn cymryd i ystyriaeth yr arweiniad, deddfwriaeth a'r newidiadau perthnasol i strwythur uwch reoli'r Cyngor dros y blynyddoedd diweddar. Dylai'r strwythur tâl sy'n berthnasol i'r grŵp yma o staff yn Atodiad B yr adroddiad, o fewn y Polisi Tâl hefyd gael ei nodi.<br><br>Mae diwygiadau eraill yn gysylltiedig gydag achrediad y Cyngor gyda'r Real Living Wage Foundation er mwyn dod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae'r achrediad gyda'r Real Living Wage Foundation yn dangos ymrwymiad y Cyngor i dalu cyfraddau Cyflog Byw, sydd fel arfer yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref, gyda'r disgwyl iddynt gael eu talu erbyn mis Mai.<br><br>Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd bod y Swyddogion oedd yn dal y swyddi graddau isaf o fewn yr Awdurdod fel y dangoswyd yn atodiadau'r adroddiad, mewn rhai achosion, prin yn codi uwchben yr isafswm cyflog, a bod angen mynd i'r afael â hyn yn genedlaethol wrth symud ymlaen pan fyddai dyfarniadau cyflog yn cael eu cynnig ac yn cael eu cyflwyno/gweithredu yn dilyn hynny.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2024/2025 a atodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**8. Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad a oedd wedi ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol newydd (RLDP) yn cael ei fabwysiadu fel sy'n ofynnol gan Reoliad 25 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Roedd yr adroddiad, oedd yn cynnwys gwybodaeth sylweddol yn ei Atodiadau cefnogol, yn rhoi gwybod i'r Cyngor am yr Adroddiad rhwymo yr Arolygydd ar yr Archwiliad i Gynllun Datblygu Lleol newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 - 2033, oedd yn rhoi manylion am y newidiadau a argymhellwyd er mwyn sicrhau bod y |

| | |
|---|---|
| | Cynllun Datblygu Lleol (Cynllun) yn gadarn, tra'n cwrdd â'r gofynion cyfreithiol a statudol perthnasol.<br><br>Y ddau newid a gafodd eu hargymell yn dilyn archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio oedd hepgor Parc Afon Ewenni o'r Cynllun Datblygu ar gyfer tai, oherwydd ei bod yn cael ei hystyried yn ardal oedd mewn peryg o orlifo. Yr ail newid oedd i bennu safle Heol Ewenni ym Maesteg yn safle tai Strategol yn hytrach na dim ond safle tai.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol, er enghraifft a/neu ofyn o dan y cwestiynau a grybwyllwyd isod, ac yr ymatebwyd iddynt gan Swyddogion:<br><br>• Gan fod costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr amser y cafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei ddwyn ynghyd, a oes gan yr awdurdod lleol y gallu i ailymweld ag unrhyw gyfraniadau ariannu S106 blaenorol sydd wedi eu hymrwymo i ddatblygiadau newydd gan ddatblygwyr safle ar gyfer cyfleusterau ychwanegol, megis darparu ysgolion newydd, meysydd chware newydd a.y.y.b. er mwyn sicrhau bod yr arian a neilltuwyd yn berthnasol i faint y datblygiad sy'n cael ei ddarparu;<br>• Dylid ystyried darpariaeth a chyfleusterau gofal iechyd addas eu hystyried yn rhan annatod o ddarpariaeth y Cynllun Datblygu Lleol newydd.<br>• Os oedd cais cynllunio yn cael ei gynnig yn gwyro oddi wrth y Cynllun Datblygu Lleol newydd, yna a ellid ystyried hyn yn argymhelliad gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu i gyfarfod o'r Pwyllgor llawn, lle bo hynny'n addas?<br>• A ellid cael sicrwydd bod sgôp a hyfywedd digonol er mwyn cefnogi cynigion isadeiledd trafnidiaeth a llif traffig ar draws y Fwrdeistref Sirol, er enghraifft ar Gyffordd 36, gyda chynigion ar gyfer adeiladu datblygiadau preswyl a masnachol pellach mewn ardaloedd, megis, er enghraifft datblygiadau Kenning a Hy Bont;<br>• Roedd angen i Aelodau nodi bod y Cyngor heddiw naill ai angen cytuno i dderbyn, neu ar y llaw arall, wrthod y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ei gyfanrwydd yng nghyfarfod heddiw, yn hytrach nag argymell unrhyw ddiwygiadau i'r un un.<br>• A oedd digon o adnoddau yn eu lle er mwyn sicrhau cyflawni'r cynigion ar gyfer ailddatblygu Pont a Chroesfan Reilffordd Penprisk ym Mhencoed oedd wedi'u gohirio?<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Y dylai'r Cyngor:<br><br>a) Nodi canfyddiadau Adroddiad rhwymo yr Arolygwr sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 (i'r blaen adroddiad) a chymeradwyo mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd Pen-y-bont ar Ogwr 2018 – 2033.<br><br>b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a |

| | |
|---|---|
| | Datblygu er mwyn gwneud mân gywiriadau teipograffeg neu ffeithiol, newidiadau cyflwyniadol neu ddiwygiadau dilynol i'r RLDP yn codi o'r newidiadau a argymhellwyd gan yr Arolygwr yn unol â pharagraff 12.1 ac Atodiad A o Adroddiad yr Arolygwr (Atodiad 1).<br><br>c) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau a Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, gan gynnwys sicrhau bod y Cynllun ar gael ar wefan y Cyngor ac mewn lleoliadau ar gadw yn unol gyda Rheoliad 25 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru)(Local Development Plan) (Wales) 2005 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>ch) Awdurdodi parhau i ddefnyddio'r SPGau mabwyseidg a baratowyd er mwyn cefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (2006-2021) presennol fel ystyriaethau materol wrth ddod i benderfyniad ynghylch ceisiadau cynllunio hyd nes i'r SPGau hyn gael eu disodli neu fel arall eu diddymu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**9. Trafodion Parti Perthnasol 2023-24 ar gyfer Datganiad Cyfrifon**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid adroddiad, at bwrpas darparu gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch y gofyniad am i'r Aelodau ddatgan yn swyddogol unrhyw drafodion parti perthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 drwy gwblhau'r datganiad atodedig yn Atodiad A i'r adroddiad, hyd yn oed pe na bai unrhywbeth i'w ddatgan, a bod yn rhaid i hwn gael ei gwblhau heb fod yn gynt na 31 Mawrth 2024 a'i ddychwelyd erbyn dydd Mercher<br>10 Ebrill 2024 Ychwanegodd y Swyddog ei bod yn ofynnol datgan unrhyw drafodion parti perthnasol oedd gan Aelodau o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r gofyniad am i Aelodau:<br><br>• ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion parti perthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24;<br>• cwblhau a dyddio'r fantolen heb fod yn gynharach na 31 Mawrth 2024;<br>• cyflwyno'r fantolen erbyn dydd Mercher 10 Ebrill 2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

## 10. Protocol Diogelwch Personol Aelod Etholedig

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad er mwyn ceisio sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer y Protocol Diogelwch Personol Aelod Etholedig ac i awdurdod dirprwyedig gael ei roi i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, er mwyn ystyried a chymeradwyo unrhyw giesiadau am ariannu mesurau diogelwch priodol lle roedd Aelod mewn perygl personol, neu o dan fygythiad niwed sylweddol wrth gyflawni eu rôl.<br><br>Roedd y Protocol yn atodedig yn Atodiad A yr adroddiad a chadarnhaodd y Swyddog Monitro bod hwn wedi cael ei rannu yn flaenorol gyda Phwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, a oedd wedi rhoi eu cefnogaeth iddo.<br><br>Roedd y Protocol hefyd yn cyfeirio at Ganllawiau Gweithio ar eich Pen eich Hun yr Awdurdod, yr anogwyd yr Aelodau i fod yn gyfarwydd ag ef er mwyn sicrhau eu diogelwch personol eu hunain. Roedd hwn i gael ei ddarllen ar y cyd gyda'r Protocol er mwyn lleihau peryglon gweithio ar eich pen eich hun cyn belled ag yr oedd yn ymarferol resymol.<br><br>Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol ynghylch yr adroddiad:<br><br>• Croesawsant y Protocol Diogelwch Personol a'i ymdrech i dargedu aflonyddu ar Aelodau yn bennaf gan aelodau penodol o'r cyhoedd, drwy ffynonellau megis y Cyfryngau Cymdeithasol, ebyst, llythyrau, negeseuon testun, galwadau ffôn neu wyneb yn wyneb;<br>• Nododd un Aelod ddymuniad am i'r Gwasanaethau Democrataidd gael eu hysbysu yn flynyddol o leiaf ynghylch llwyddiant y Protocol, er mwyn asesu a oedd yn addas i'r pwrpas o safbwynt cefnogi diogelwch Cynghorwyr, gan gydnabod y gallai fod angen peth addasiadau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni yn y ffordd orau;<br>• Yn ogystal â'r Protocol y dylai ystyriaeth i gefnogaeth lles unigolion gael ei roi yn ei le ar gyfer unrhyw Aelod, ar sail achos wrth achos, pan ystyrid bod hyn yn angenrheidiol:<br>• Bod ystyriaeth hefyd yn cael ei roi ar gyfer rhoi mecanwaith yn ei le, fel bod Aelodau yn gallu cael cyswllt uniongyrchol gyda'r Heddlu mewn achosion o fygwth neu aflonyddu a.y.y.b. neu drwy atgyfeiriad gan Uwch Swyddog yn yr awdurdod lleol;<br>• Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Protocol Diogelwch Personol wedi cael ei rannu gydag Uwch Arolygydd newydd Heddlu De Cymru, oedd wedi cynnig cwrdd gydag Aelodau lleol er mwyn cynnig cyngor ar gamau gweithredu y gellid eu cymryd pe bai unrhyw Aelod yn teimlo bod eu diogelwch yn cael ei gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd. Gellid adnabod Swyddogion cyswllt allweddol o fewn yr Heddlu yn ogystal, er mwyn i unrhyw gam oedd gofyn ei gymryd yn cael ei ddelio ag o yn gyflym. |

| | |
|---|---|
| | • Cadarnhodd y Swyddog Monitro mewn ymateb i gwestiwn, y gellid delio gyda bygythiadau gan un Cynghorydd tuag at y llall drwyddi hi yn bersonol, yr Ombwdsmon neu yn uniongyrchol drwy'r Heddlu, yn dibynnu ar ddifrifoldeb pob achos fyddai'n codi;<br>• Y dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Heddlu De Cymru er mwyn rhoi pwysleisio ymhellach bwysigrwydd y Protocol Diogelwch Personol.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor:<br><br>a) Ystyried a chymeradwyo'r Protocol Diogelwch Personol Aelod Etholedig atodedig yn Atodiad A o'r adroddiad; a<br>b) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid er mwyn ystyried a dod i benderfyniad ynghylch unrhyw geisiadau am ariannu mesurau diogelwch priodol lle roedd Aelod mewn perygl personol neu fygythiad sylweddol o niwed wrth weithredu o fewn eu rôl. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**11. Panel Annibynnol Tâl Cydnabyddiaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol Cymru 2024/25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er mwyn rhoi gwybod i'r Cyngor am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) o safbwynt lefel ac ystod y tâl cydnabyddiaeth y mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau ei fod ar gael i'w aelodau etholedig ar gyfer blwyddyn Cyngor 2024/25<br><br>Nod yr IRPW yw cefnogi democratiaeth leol a rhoi llais i gymunedau, drwy sefydlu fframwaith tâl cydnabyddiaeth priodol a theg, sy'n annog cynhwysiant a chyfranogiad. Mae'r IRPW yn gwneud penderfyniadau ar y canlynol:<br><br>• y strwythur cyflog y mae'r aelodau yn derbyn tâl cydnabyddiaeth oddi mewn iddo.<br>• math a natur y lwfansau sydd i'w talu i aelodau;<br>• p'un ai a yw taliadau yn orfodol neu ganiatáu rhyw gymaint o hyblygrwydd lleol;<br>• trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol.<br><br>Ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2024/25 mae'r prif elfennau sy'n newid gan effeithio ar yr Awdurdod Lleol yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | • Y Tâl Sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau Penderfyniad 1;<br>• Cyflogau a delir i aelodau Hŷn, Dinesig a Llywyddol Prif Gynghorau - Penderfyniad 2;<br>• Cyflogau ar gyfer Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (JOSC) – Penderfyniad 3;<br>• Taliadau a wneir i aelodau cyfetholedig o Brif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub - Penderfyniad 5.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor nodi'r Adroddiad bLynyddol ar gyfer 2024/25 gan gymeradwyo:<br><br>(1) Mabwysiadu Penderfyniadau perthnasol y Panel oedd yn gynwysedig o fewn yr Adroddiad Blynyddol (yn atodedig fel Atodiad 1);<br><br>(2) Bydd deiliaid y swyddi hynny (a ddangosir yn y Cynllun Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau diwygiedig yn Atodlen 1 Atodiad 2) yn derbyn cyflog hŷn / dinesig;<br><br>(3) Y Cynllun Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau diwygiedig (Atodiad 2 o'r adroddiad) ac iddo ddod yn weithredol o 1 Ebrill 2024;<br><br>(4) Y dylai'r Cynllun Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau gael ei ddiweddaru gydag unrhyw newidiadau i swyddi cyflogau hŷn / dinesig a wnaed yn dilyn hyn gan y Cyngor yn ystod blwyddyn Cyngor 2024/25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**12. Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Hysbysodd y Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratiadd y Cyngor o adroddiad gwybodaeth ar gyfer nodi, oedd wedi ei gyhoeddi oddi ar y cyfarfod olaf i gael ei drefnu.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyngor gydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

**13. I dderbyn y Cwestiwn canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Y Cynghorydd R Penhale-Thomas i'r Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd ac Amgylchedd (ymateb eisoes wedi'i rannu gydag aelodau)<br><br>Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol gan y Cynghorydd R Penhale-Thomas a'r Cynghorydd Ian Spiller (ni wnaed penderfyniad) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**14. Hysbysiad Cynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Alex Williams:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Williams, cytunodd y Cyngor i ohirio'r Hysbysiad Cynnig hyd nes y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

**15. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 13 Mawrth 2024 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon